
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO DYDD IAU, 8 MEDI 2022

Presenoldeb:

Cynghorwyr:

Menna Baines, Elfed Wyn ap Elwyn, Meryl Roberts, Medwyn Hughes, Paul Rowlinson, Huw Rowlands, John Brynmor Hughes, Angela Russell, Richard Glyn Roberts a Rob Triggs.

Aelodau Lleyg:

Sharon Warnes (Cadeirydd), Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock a Rhys Parry.

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau), Alun Williams (Uwch Reolwr Busnes) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Erail a wahoddyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Alan Hughes (Archwilio Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Jina Gwyrfa.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Holodd y Cynghorydd Rob Triggs a ddylai ddatgan buddiant personol yn eitem 5 – Datganiad o Gyfrifon 2021-22, oherwydd ei fod yn derbyn pensiwn Gwasanaeth Tân, a bod cyfeiriad yn yr adroddiad at gronfeydd pensiwn. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd hwn yn fuddiant oedd yn effeithio ar y gyllideb o ran gallu'r aelod i gymryd rhan yn y drafodaeth.

3. MATERION BRYD

Gan gyfeirio at fwriad y Prif Weinidog i wneud cyhoeddiad yn nes ymlaen yn y dydd ynglŷn â'i chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r cynnydd aruthrol ym mhris tanwydd, holodd aelod a fyddai yna gyfle i'r pwyllgor hwn drafod y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol. Awgrymwyd bod hynny'n fater i'w godi dan eitem 7 – Blaen Raglen y Pwyllgor.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 30 Mehefin, 2022 fel rhai cywir.

5. DATGANIAD O GYFRIFON 2021/22

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol (drafft cyn archwiliad) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Nodwyd:-

- Bod y cyfrifon drafft yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, ac y cyflwynid y fersiwn terfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 17 Tachwedd 2022 o'r pwyllgor hwn.
- Nad oedd gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrid bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r pwyllgor hwn er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet Cyllid ddiweddariad i'r aelodau ar eu cyfrifoldebau ynghyd ag amlinelliad o lle rydym wedi cyrraedd ar y daith. Yna manylodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Adran am y gwaith manwl, gan wahodd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r Uwch Reolwr Cyllid am roi cyflwyniadau clir iawn, oedd yn tynnu sylw at nifer o faterion hynod o bwysig mewn ffordd ddealladwy.
- Gan gyfeirio at yr angen i brisio mwy o eiddo yn sgil y ffaith bod lefelau chwyddiant mor uchel, holwyd a oedd yna unrhyw newidiadau o ran prisio asedau priffyrdd, ac a oedd hynny'n debygol o greu unrhyw oedi o ran archwilio'r cyfrifon. Mewn ymateb, nodwyd bod priffyrdd yn ymddangos dan 'is-adeiladwaith' yn Nodyn 15 o'r Cyfrifon (Eiddo, Offer a Chyfarpar). Eglurwyd nad oedd priffyrdd yn cael eu hail-brisio, a'u bod i mewn ar eu cost hanesyddol. Pe bai'r Cyngor yn gwneud darn o waith ar unrhyw ffordd, roedd yn mynd i mewn ar y gost, ac yn cael ei brisio yn unol â'r polisi yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon dros 40 o flynyddoedd. Nodwyd ymhellach bod gwaith ar droed yn Lloegr i newid y drefn oherwydd nad oedd hyn, o bosib, yn adlewyrchiad o beth ydi gwerth y ffordd, ac un o'r cynigion dan ystyriaeth oedd bod y ffigwr net yn unig yn cael ei roi i mewn, yn hytrach na chynnwys y dadansoddiad manwl fel yn Nodyn 15. Efallai bod yna opsiynau eraill hefyd, ond nid oedd hyn yn fater hawdd gan fod y wybodaeth sydd gan y cynghorau ynglŷn â'r gwariant a wnaethpwyd ar ffyrdd ar sail y gost hanesyddol yn unig, gan nad oedd prisiad wedi'i wneud ohonynt erioed. Holwyd ymhellach a fyddai hyn yn effeithio ar archwiliad eleni o Gyfrifon y Cyngor hwn. Mewn ymateb, nodwyd y gallai gael effaith, ond bod y trafodaethau'n parhau.
- Holwyd a oedd y prisio mwy manwl am fod yn batrwm i'r dyfodol. Mewn ymateb, eglurwyd mai'r lefelau chwyddiant uchel oedd wedi effeithio ar hyn, a tra bo lefelau chwyddiant yn parhau'n uchel, roedd yn debygol y byddai yna fwy o ofyn am hyn oherwydd y prisiau cyfnewidiol yma. Roedd y mater hwn yn cael ei drafod hefyd gan ei fod yn fyrddwn ychwanegol ar gynghorau mewn cyfnod heriol yn ariannol, er bod Gwynedd yn fwy ffodus na rhai cynghorau yn hyn o beth, gan bod gennym ein prisiwr mewnol ein hunain i wneud y gwaith. Nodwyd hefyd bod y mater yn dal i gael ei drafod ar hyn o bryd ac y byddai canllawiau newydd yn cael eu rhyddhau yn fuan, fyddai'n rhoi mwy o eglurhad ar y mater.

- Holwyd a oedd yr hen ffordd o Lanwnda i Gaernarfon, sydd bellach yn nwylo Cyngor Gwynedd yn sgil agor y ffordd osgoi newydd, yn cael ei hadlewyrchu mewn unrhyw ffordd yn y cyfrifon. Mewn ymateb, eglurwyd bod arian ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y setliad i adlewyrchu'r ffaith bod ffordd wedi peidio bod yn gefnffordd, ac wedi trosglwyddo o ofalaeth yr Asiantaeth Cefnffyrdd i'r Cyngor Sir.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â ffynhonnell ariannu'r £4.4m o wariant ar waliau Harbwr Aberdyfi, eglurwyd bod yna nifer o gynlluniau ym maes llifogydd ac arfordirol sydd â hawl gwneud benthyciadau ar eu cyfer, gyda chefnogaeth yn dod drwy'r setliad i dalu amdanynt, a bod hyn yn y rhaglen gyfalaf yn barod.
- Gan gyfeirio at Dabl 3 o'r Cyfrifon – Crynodeb o Wariant Cyfalaf a'i Ariannu – holwyd pam bod gwariant Amgylchedd gymaint uwch yn 2021/22 nag yr oedd yn 2020/21. Mewn ymateb, eglurwyd mai'r prif reswm am hynny oedd bod yr Adran wedi derbyn £8.3m o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2021/22, o gymharu â £2m yn 2020/21. Nodwyd hefyd, yn wahanol i wariant refeniw, bod gwariant cyfalaf yr adrannau yn gallu amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall, yn ddibynnol ar y prosiectau sydd ar y gweill.
- Nodwyd ei bod yn ymddangos bod y Cyngor yn bod yn ddarbodus iawn yn cynyddu ei reserfau, ond holwyd a oedd y swyddogion yn bryderus ynglŷn â'r flwyddyn i ddod o ystyried yr ansicrwydd ariannol presennol. Mewn ymateb, nodwyd, pan osodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, y rhagwelwyd y byddai lefel chwyddiant costau cyflog a lefel chwyddiant cyffredinol tua 4%, sef ffigur a ystyrid yn ddarbodus ar y pryd. Fodd bynnag, gan fod y ffigur chwyddiant yn llawer uwch na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer, a phetai pob dim arall yn aros yr un fath, byddai'r Cyngor yn gorwario eleni. Eglurwyd bod y Cyngor wedi bod yn ddarbodus ac wedi gwneud nifer o benderfyniadau anodd dros y blynyddoedd i sicrhau bod gennym reserfau rhag ofn i sioc ariannol ein taro. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, roedd gan y Cyngor reserfau a balansau cyffredinol fyddai'n lliniaru'r sioc o gostau ynni ychwanegol a chostau cyflogau uwch nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, nid oedd reserfau yn ateb hirdymor, felly ar gyfer y flwyddyn nesaf, roedd y Tîm Cyfrifeg eisoes yn edrych yn fanwl ar beth ydi'r sylfaen rydym ni'n gweithio ohono. Gan fod y ffigur chwyddiant gymaint yn uwch eleni nag a ragwelwyd, byddai'n rhaid i'r Cyngor gynyddu'r sail ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac wrth osod cyllideb y flwyddyn nesaf, byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried beth sy'n fforddiadwy ac efallai torri'r brethyn i ffitio'r arian sydd ar gael. Cadarnhawyd, fodd bynnag, na ragwelid y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa o orfod cau ysgolion / sefydliadau rai dyddiau o'r wythnos, fel rhai cynghorau eraill, a rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor y byddai'r reserfau a neilltuwyd eisoes yn ein cario drwy'r gaeaf caled sydd o'n blaenau.
- Gan gyfeirio at Nodyn 10.29 o'r Cyfrifon – Cronfa Premiwm Treth Cyngor – gofynnwyd am enghreifftiau o brosiectau o dan y pennawd hwn. Mewn ymateb, nodwyd, er bod rhai cynlluniau cyfalaf wedi llithro dros y blynyddoedd, bod yna ddadansoddiad manwl yn y Cynllun Gweithredu Tai, a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020, o'r defnydd sydd wedi'i fwriadu ar gyfer yr arian Premiwm Treth Cyngor.
- Holwyd a fyddai'n bosib' cael gwybod, pan fydd y pwyllgor hwn yn trafod y Premiwm Treth Cyngor ar 17 Tachwedd, pa gyfran o'r £13m sy'n dod o breiwm sydd wedi'i dalu gan drigolion Gwynedd. Mewn ymateb, cadarnhawyd y gellid darparu'r wybodaeth honno yn yr adroddiad i'r pwyllgor.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2021/22.

6. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad ar y cyd gan Reolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor ac Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru yn amgáu diweddariad Chwarter 1 Archwilio Cymru ar waith y cyrff adolygu (Atodiad 1) ac adroddiad cenedlaethol 'Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion' (Atodiad 2).

Croesawyd Alan Hughes (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod, a manylodd ar gynnwys adroddiad Chwarter 1.

Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai yn 2023 y byddai'r adroddiad terfynol ar y gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg (tudalen 114 o'r rhaglen) yn barod. Eglurwyd bod yna 2 elfen i'r gwaith, sef ystyried yr elfennau er sicrwydd a'r manau lle mae'r risg yn bodoli. Fel arfer, roedd y gwaith yn cael ei gynhoi o gwmpas Rhagfyr / Ionawr cyn trafod gyda'r cynghorau ynglŷn â lle mae'r budd mwyaf i fod yn siapio cynllun lleol y flwyddyn i ddod, a'r siapio yna oedd wedi helpu dylanwadu'r cynllun archwilio ar gyfer eleni. Gan hynny, wrth edrych ar faterion fel Gofal heb ei Drefnu, Digidol ac Adolygiad o Effethiolrwydd Craffu ddaeth allan o'r gwaith y llynedd, byddai'r archwilwyr yn mynd drwy'r drefn eto o asesu sicrwydd a risg ac yn ceisio dod i gasgliad ynglŷn â lle mae'r elfennau sicrwydd. Roedd yna ychydig o risg yn bodoli hefyd, a gallai'r risg fod yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol. Byddai'r gwaith yn digwydd drwy gydol y flwyddyn, gan edrych ar y sefyllfa ariannol tuag at ddiwedd y flwyddyn pan fyddai'r cyfrifon wedi'u drafftio, fel bod modd tynnu'r ffigurau ohonynt. Dyna un o'r darnau gwaith oedd ar y gweill ar hyn o bryd, sef edrych ar y patrwm ariannol yn y cynghorau.
- Gan gyfeirio at waith sy'n digwydd dros gyfnod mwy hir-dymor, holwyd a oedd yna unrhyw negeseuon interim fyddai'n gallu helpu'r pwyllgor gyda'i waith, yn hytrach nag aros tan ddiwedd y broses. Mewn ymateb, nodwyd bod argymhelliad yn yr adroddiad Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion ynglŷn â data, a bod cyfeiriad yn y 4 adroddiad diwethaf a baratowyd gan Archwilio Cymru yng Ngwynedd at well defnydd o ddata. Cafwyd adroddiad yn edrych ar y drefn reoli perfformiad ac roedd cyfeiriad yno at ddefnydd o ddata yn hybu gwneud penderfyniadau, ac ati, fel rhan o edrych ar sut mae argymhellion yn deillio o archwiliad allanol, ac ati, yn cael eu cwblhau. Roedd yna adroddiadau rheolaidd hefyd yn diweddarau'r pwyllgor ar yr ymateb i'r argymhellion. Nid oedd yn debygol y byddai'r data yn symud oddi ar y radar yn fuan iawn a chredid bod angen gwneud y defnydd gorau ohono i wneud penderfyniadau.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Craffu yn ddarn o waith lleol, er ei fod yn bwnc oedd yn codi mewn cynghorau eraill hefyd, a diau y byddai yna enghreifftiau o waith tebyg ar gael ar safle we Archwilio Cymru gan ei fod yn destun sy'n cael ei archwilio o dro i dro yn y cynghorau.
- Holwyd a fyddai'n addas i'r pwyllgor hwn weld yr adroddiad terfynol ynglŷn â'r adolygiad craffu. Mewn ymateb, eglurwyd bod hyn yn syrthio i'r ardal lwyd rhwng yr hyn sy'n fater archwilio a risg a llywodraethu a'r hyn sy'n fater craffu pur. Fodd bynnag, roedd gan y pwyllgor hwn rôl statudol o

gadw trosolwg o sut mae'r Cyngor yn cael ei redeg a chredid bod edrych ar sut mae'r trefniadau craffu yn gweithio yn disgyn i mewn i'r categori llywodraethu, ac felly o fewn sgôp y pwyllgor. Pwysleisiwyd hefyd mai rôl y pwyllgor hwn fyddai bodloni ei hun bod gan y Cyngor drefniadau priodol mewn lle i ymateb i'r prif negeseuon a'r argymhellion, yn hytrach na chraffu'r adroddiad.

Yna gosododd Alan Hughes (Archwilio Cymru) y cyd-destun i'r adroddiad 'Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion' a manylodd yr Uwch Reolwr Busnes ymhellach ar gynnwys yr adroddiad.

Gwahodwyd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at dudalen 158 o'r rhaglen, lle mae'r tabl arddangosydd 4 yn cymharu blynyddoedd 2016/17 gyda 2018/19, sylwyd bod Gwynedd yn un o'r 5 awdurdod welodd y gostyngiad mwyaf yn y ganran o bobl oedd yn derbyn taliadau uniongyrchol. Holwyd sut roedd hyn yn cymharu gyda'r blynyddoedd ers hynny, a gofynnwyd hefyd a oedd gweithwyr cymdeithasol yn gwneud digon i dynnu sylw pobl at y ddarpariaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod y niferoedd wedi aros yn eithaf sefydlog yn ystod y cyfnod Cofid, yn bennaf, mae'n debyg, oherwydd bod pobl yn teimlo nad oedd hyn yn rhywbeth ychwanegol y byddent yn dymuno ei gymryd ymlaen yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, roedd angen cadw trac ar y ffigurau, gan dyfu'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. Eglurwyd bod llawer o gynghorau wedi mewnloli'r tîm sy'n rheoli'r taliadau uniongyrchol, a thros y misoedd nesaf, byddai'r Cyngor hwn yn edrych ar opsiynau gwahanol, megis mewnloli'r gwasanaeth neu basio'r gwasanaeth ymlaen i gomisiynydd allanol. O ran y pwynt ynglŷn â gweithwyr cymdeithasol, nodwyd bod hynny'n amrywio ac yn ddibynnol ar hyder y gweithiwr cymdeithasol i hyrwyddo'r taliadau fel opsiwn. Nodwyd hefyd mai un o flaenoriaethau'r gwasanaeth dros yr wythnosau nesaf fyddai darparu gwybodaeth a hyfforddiant i'r gweithwyr cymdeithasol fel eu bod yn hollol hyderus o ran hyrwyddo'r ddarpariaeth fel opsiwn, ac yn gallu ymateb i unrhyw gwestiynau neu bryderon. Awgrymwyd hefyd y gellid codi hyder y gweithwyr cymdeithasol drwy roi'r cyfle iddynt weld sut mae timau eraill yn gweithredu, e.e. timau o Ynys Môn sy'n gweithio o Ysbyty Gwynedd.
- Cyfeiriwyd at y ffeithiau allweddol ar dudalen 133 o'r rhaglen, sy'n nodi bod y gyfran o oedolion a oedd yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy Daliadau Uniongyrchol yn 2018-19 yn amrywio o 1.6% (137) yng Ngwynedd i 12.9% (336) yng Ngheredigion, a holwyd a oedd y ffigur wedi newid yn sylweddol erbyn hyn. Mewn ymateb, nodwyd bod gan Wunedd 198 o unigolion yn derbyn y taliad bellach, yn cynnwys unigolion a phlant. Gan hynny, roedd y ffigur wedi cynyddu ers 2018/19, ond ddim cymaint ag y dymunid.
- Holwyd a oedd cleifion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn ei chael yn anodd cael pobl i ofalu amdanynt, ac ai dyma'r rheswm pam bod y niferoedd yn isel yng Ngwynedd? Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hynny'n broblem ar hyn o bryd. Nodwyd, mewn siroedd eraill, bod yna unigolion yn gweithio i gwmnïau neu i'r cyngor lleol ac yn gweithio i unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn ystod y nos. Roedd angen edrych yn fwy manwl ar yr opsiwn hwn, ond yn sicr, roedd diffyg cymorthyddion yn broblem ar hyn o bryd, ac yn debygol o roi pobl i ffwrdd os ydyn nhw'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o daliadau uniongyrchol, ond yn methu cael gafael ar neb i ofalu amdanynt. Ceisid cael y cwmni sy'n cael ei gomisiynu gan y Cyngor i gadw cofrestr o gymorthyddion sydd ar

gael fel bod unigolion yn gallu cael gwybodaeth ynglŷn â phwy fyddai'n gallu eu cynorthwyo. Nodwyd hefyd, gan nad oedd yn ofynnol i'r sawl sy'n cael ei gyflogi fod yn gofrestredig, bod modd i unigolion gyflogi ffrind neu gymydog, ac roedd hynny weithiau'n cynnig ateb lle mae'n anodd cael cwmni gofal i roi'r gwasanaeth.

- Awgrymwyd gan aelod bod yna naddu ar y wladwriaeth les yma drwy roi cyfrifoldeb ar yr unigolyn yn hytrach na'r sefydliadau.
- Holwyd i ba raddau roedd taliadau uniongyrchol yn caniatáu codi'r gyfradd tâl (sef £12.62 fesul awr) i gymorthyddion personol, gan fod yna brinder gweithwyr yn y maes yn y sir ac yn ehangach. Mewn ymateb, nodwyd bod Gwynedd yn talu un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru ar adeg casglu'r data, ond yn amlwg roedd angen ail-edrych ar y gost uned erbyn hyn gan mai un o'r prif rwystrau i ddod o hyd i ofalwyr oedd lefel y cyflog.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r posibilrwydd o unigolion yn cychwyn micro fentrau gofal yn lleol, nodwyd bod y Cyngor yn gweithio gyda chwmni o'r enw Community Catalyst ar hyn o bryd. Bwriad y cwmni oedd sefydlu'r micro fentrau hyn, a hynny oedd wedi amlygu'r angen i ail-edrych ar y gyfradd tâl, yn hytrach na bod y sawl sy'n derbyn y taliadau uniongyrchol wedi bod yn gwneud sylw bod y lefel tâl yn isel. Felly, os ail-edrych ar y gyfradd, byddai'n rhaid ail-edrych arno ar gyfer pawb, ac nid ar gyfer y rhai sy'n dod i mewn drwy'r gwaith newydd yn unig.

Diolchodd y Cadeirydd i Alan Hughes (Archwilio Cymru) a'r Uwch Reolwr Busnes am gyflwyno'r adroddiad. Nododd fod y maes yn fwy cymhleth nag y mae adroddiad ar bapur yn gallu gyfleu, ac awgrymodd fod y pwyllgor yn annog y swyddogion i fwrw ymlaen gyda'r rhaglen waith.

Nododd Alan Hughes (Archwilio Cymru) fod taliadau uniongyrchol yn faes i'w hyrwyddo ac anogodd bawb i ddarllen Adran 4 o'r adroddiad, sy'n rhoi blas o'r math o gefnogaeth mae taliadau uniongyrchol yn gallu rhoi er mwyn gwella llesiant pobl.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

7. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn amgáu drafft o raglen waith y pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Chwefror, 2023.

Nododd y Pennaeth Cyllid:-

- Er bod Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn eitem sefydlog ar raglen y pwyllgor, na fyddai'n ymddangos oni bai bod cyfarfod o'r gweithgor wedi'i gynnal yn ystod y cylch dan sylw.
- Yn unol â rôl newydd y pwyllgor hwn o gadw trosolwg ar drefniadau'r Cyngor a sut yr ymdrinnir â chwynion, bod y swyddogion yn anelu at gyflwyno adroddiad craffu i'r pwyllgor ar 17 Tachwedd.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosib' i aelodau'r pwyllgor dderbyn hyfforddiant ar unrhyw feysydd anghyfarwydd cyn craffu adroddiadau ar y pwnc. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hynny'n bosib', a gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i'r swyddogion pe dymument dderbyn hyfforddiant ar unrhyw faes penodol.

Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Yn ystod y drafodaeth,

codwyd y materion a ganlyn:-

- Gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r pecyn ar y Gyllideb i gyfarfod 9 Chwefror yn cynnwys adroddiad ar y sefyllfa gyfredol o ran yr arian wrth gefn yn bob maes ynghyd ag adroddiad ar y balansau cyffredinol. Mewn ymateb, cadarnhawyd y bydd y pwyllgor hwn yn derbyn yr un pecyn ag a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. Eglurwyd mai rôl y pwyllgor hwn fyddai herio a chymryd trosolwg a gwneud yn siŵr bod y pecyn sy'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn cynnwys y wybodaeth gyflawn sydd ei hangen ar yr aelodau hynny i wneud eu hargymhelliad. Hefyd, petai angen defnyddio rhywfaint o reserfau i bontio bwch ariannol y flwyddyn nesaf, byddai'r pecyn yn amlinellu'r risgiau sydd ynghlwm â hynny.
- Gofynnwyd am gynnwys eitem sefydlog ar raglen pob cyfarfod o'r pwyllgor yn rhoi diweddariadau ar faterion a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol, gan nad oes modd codi materion o'r cofnodion. Mewn ymateb, nodwyd y gellid cynnwys eitem ar raglen pob cyfarfod yn diweddarau'r aelodau o ran gweithredu'r penderfyniadau, a chytunwyd i edrych i mewn i hynny ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gyda'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.45 y.b.

CADEIRYDD